## Panel Adolygu Arbenigol: Cyfarfod 4.1 ychwanegol

**Cofnodion y cyfarfod**

**Dyddiad:** Dydd Iau, 26 Ionawr 2023

**<u>Yn bresennol:</u>**
**Cadeirydd:** Yr Athro Suzanne Fitzpatrick (Prifysgol Heriot-Watt).

**Aelodau:** Liz Davies CB (Siambrau Garden Court), Yr Athro Peter Mackie (Prifysgol Caerdydd), Jennie Bibbings (Shelter Cymru), Katie Dalton (Cymorth Cymru), Jim McKirdle (Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru), Clarissa Corbisiero (Cartrefi Cymunedol Cymru), Nazia Azad (Tai Pawb), Hannah Fisher (Llywodraeth Cymru), Huw Charles (Llywodraeth Cymru).

**Hefyd yn bresennol:** Jordan Brewer (Crisis), Abi Renshaw (Crisis), Debbie Thomas (Crisis).

**Ymddiheuriadau:** Matt Downie (Crisis), Angela Bowen (Cyngor Sir Gâr), Sam Parry (Cyngor Conwy).

### 1. Croeso, cofnodion a phapurau ychwanegol

Croesawodd y Cadeirydd aelodau'r Panel i gyfarfod ychwanegol y Panel Adolygu Arbenigol ar lety dros dro ac addasrwydd. Diolchodd i'r Panel am fod yn hyblyg a ffitio cyfarfod ychwanegol i mewn ar fyr rybudd.

*Cofnodion cyfarfod 4:* Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir, yn amodol ar un newid y gofynnwyd amdano ar dudalen 9 i egluro mai'r rhan fwyaf o waith achos tîm cyfreithiol Shelter Cymru, yn hytrach na'r elusen yn gyffredinol, yw amddiffyn gorchmynion meddiant ymddygiad anghymdeithasol.

Dywedodd y Cadeirydd y byddai'r cyfarfod yn canolbwyntio ar ddau bwnc a oedd ar ôl o'r cyfarfod diwethaf: llety dros dro ac addasrwydd. Penderfynwyd cynnal trafodaethau ar ddyraniadau (gan gynnwys Adran 5 yn yr Alban) mewn cyfarfod yn y dyfodol, oherwydd bod trafodaethau'n mynd rhagddynt a thystiolaeth yn cael ei chasglu yn y maes hwn.

| Aelod(au) y Panel | Cam gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Jordan Brewer, Abi Renshaw | Crisis i newid cofnodion cyfarfod 4 i adlewyrchu'r sylw gan JB. | Ar unwaith |
| Hannah Fisher, Suzanne Fitzpatrick a Clarissa Corbisiero | Trafod ymchwil a gwaith cwmpasu pellach i helpu i ddarparu gwybodaeth a fydd yn sail i drafodaeth y Panel ar ddyraniadau. | I'w gadarnhau |

### 2. Diweddariad gan Lywodraeth Cymru

Rhoddodd HF ddiweddariad byr gan Lywodraeth Cymru, gan egluro'r canlynol:

- Mae Llywodraeth Cymru yn gwneud rhagor o ymchwil mewn cysylltiad â dyraniadau. Diolch i CC am drefnu cyfarfodydd i ddysgu o enghreifftiau o ymarfer da. Mae cynlluniau hefyd ar gyfer sgyrsiau â chydweithwyr yn y tîm rheoleiddio ac â grŵp eang o randdeiliaid.
- Mae cyfarfodydd misol grŵp cyfeirio newydd yr awdurdodau lleol yn cael eu cynnal erbyn hyn. Gwahoddwyd pob awdurdod lleol i anfon cynrychiolydd, ac mae 20 o'r 22 awdurdod

lleol wedi gwneud hynny. Bwriad y grŵp yw profi syniadau'r Panel a darparu rhagor o wybodaeth fel sail i drafodaethau. Roedd y cyfarfod cyntaf yn cynnwys trafodaethau ar ddyraniadau, atal a lliniaru a'r tri phrawf. Bydd papur yn amlinellu'r pwyntiau a godwyd yn cael ei ddosbarthu cyn cyfarfod y Panel ar 3 Chwefror. Cynhelir cyfarfod nesaf y grŵp cyfeirio ddiwedd mis Chwefror.

- Bydd tîm polisi'r sector rhentu preifat yn Llywodraeth Cymru yn datblygu papur gwyrdd lefel uchel iawn ar renti teg a'r hawl i dai digonol, a disgwylir y bydd yn cael ei gyhoeddi yn y gwanwyn. Mae cysylltiad agos rhwng y gwaith hwn a'r papur gwyn, ond bydd yn dilyn amserlen wahanol.

Yn ogystal, gofynnodd HF beth oedd barn aelodau'r Panel ynglŷn â'r ffordd orau o ymgysylltu â chyn-filwyr. Nodwyd bod cyfran y cyn-filwyr sy'n profi digartrefedd yn gymharol isel, ond bod gan y grŵp hwn statws angen blaenoriaethol ar hyn o bryd. O ganlyniad, teimlid ei bod yn bwysig estyn allan at y grŵp hwn. Cytunodd DT i weithio gyda HF gan fynd i gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol yn y maes ac adrodd yn ôl i'r Panel maes o law.

| Aelod(au) y Panel | Cam gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Hannah Fisher | • Dosbarthu papur i'r Panel yn amlinellu adborth o gyfarfod cyntaf grŵp cyfeirio'r awdurdodau lleol.<br>• Darparu rhagor o ddiweddariadau i'r Panel yng nghyfarfod mis Mawrth. | 03.02.2023<br><br>03.03.2023 |
| Hannah Fisher, Debbie Thomas | Cysylltu â chydweithwyr yn Llywodraeth Cymru gyda'r bwriad o fynd i gyfarfodydd rhanddeiliaid allweddol o sector y lluoedd arfog. Adrodd yn ôl i'r Panel maes o law. | I'w gadarnhau |

3. **Diweddariad ar farn Arbenigwyr drwy Brofiad am lety dros dro ac addasrwydd**

Rhoddodd KD ddiweddariad ar y gwaith ymgysylltu ag Arbenigwyr drwy Brofiad. Roedd y prif themâu a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Roedd pobl yn ddiolchgar bod ganddynt do uwch eu pen, ond wedi dweud hynny, nid oedd gan y cyfranogwyr brofiadau cadarnhaol iawn at ei gilydd mewn llety dros dro ac roedd angen llawer o welliannau.
- Roedd pobl yn teimlo eu bod wedi cael y profiadau gorau â llety dros dro pan oedd yn llety â chymorth neu os oedd cymorth yn gysylltiedig â'r llety.
- Mae'r cymorth sy'n cael ei ddarparu mewn lleoliadau llety dros dro yn amrywio'n fawr. Roedd rhai yn brin o staff yn ystod cyfyngiadau symud Covid, ond roedd eraill yn cynnig cymorth arbenigol 24 awr. O ran y bobl fwyaf agored i niwed (e.e. rhai yn gadael y carchar, yn gwella ar ôl bod yn gaeth i sylweddau), roedd cymorth yn elfen hollbwysig o'u profiad cadarnhaol. Roedd yr adborth yn dangos yn glir bod llety dros dro yn llai llwyddiannus/yn anfoddhaol os nad oedd cymorth ar gael.
- Roedd cymorth yn galluogi pobl i adael llety dros dro 'yn teimlo'n llawer mwy hyderus â sgiliau byw'n annibynnol', ac yn caniatáu dyhead am addysg a gwaith. Roedd y canlyniadau hyn yn aml yn dod o lety â chymorth wedi'i gomisiynu'n strategol, yn hytrach na llety argyfwng.
- Roedd y problemau yn ymwneud â safonau presennol lletyau yn cynnwys:
    - Diffyg cyfleusterau coginio digonol
    - Diffyg cyfleusterau golchi dillad, yn enwedig i rai â phlant ifanc

    - Diffyg mynediad at ystafell ymolchi breifat, a oedd yn cael effaith ar ymdeimlad pobl o urddas
    - Safonau lle (e.e. teuluoedd yn cysgu mewn lleoedd cyfyng heb le dynodedig ar gyfer cymdeithasu, chwarae, gwaith ysgol)
    - Glendid
    - Safonau iechyd a diogelwch sylfaenol
    - Diffyg cyfathrebu. Roedd y cyfranogwyr yn teimlo nad oedd byth unrhyw ymdeimlad o gynnydd yn arwain at gartref parhaol sefydlog. Disgrifiwyd llety dros dro gan un unigolyn fel "dedfryd o garchar heb ddyddiad rhyddhau."
    - Diffyg amrywiaeth yn y mathau o lety dros dro sydd ar gael. Er enghraifft, menywod ifanc yn teimlo nad oeddent yn ddiogel neu bobl a oedd yn gwella ar ôl bod yn gaeth i sylweddau ddim yn cael llety priodol.
    - Roedd mamau'n dweud bod aros mewn llety dros dro wedi gwneud iddynt deimlo nad oeddent yn gallu bod yn famau da/darparu'r hyn sydd ei angen ar gyfer eu plant.
    - Cyfeiriodd rhai o'r cyfranogwyr at faterion yn ymwneud â theledu cylch cyfyng mewn ystafelloedd cyffredin a rennir. Roedd unigolion yn gwerthfawrogi'r agwedd ddiogelwch, ond yn dweud nad oedd byw dan amodau o'r fath yn teimlo fel cartref.
- Nodwyd y canlynol fel y prif ffyrdd y gellid gwella llety dros dro:
    - Edrych ar amrywiaeth llety a darpariaeth, fel bod modd diwallu anghenion arbennig pobl a ffactorau sy'n eu gwneud yn agored i niwed.
    - Cyfathrebu'n well â phobl sy'n byw mewn llety dros dro, fel eu bod yn gwybod mai dros dro y byddant yn aros yno a beth yw'r camau nesaf.
    - Gwahardd rhannu ystafelloedd ac egluro nad ydynt yn dderbyniol oni bai fod rhywun yn rhannu gyda'i deulu neu bartner. Parhau â'r cyfeiriad teithio ar gyfer safbwynt polisi Llywodraeth Cymru, sef llety hunangynhwysol.
    - Ceisio darparu llety dros dro mewn lleoliad sy'n briodol i'r unigolyn, e.e. ysgol, gwaith, mynediad at drafnidiaeth, teulu, rhwydweithiau cefnogi, prawf a/neu yn bellach i ffwrdd o ddylanwadau problemus.
    - Darparu cymorth iechyd meddwl o safon uchel gan staff sydd wedi cael hyfforddiant da.
    - Gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar drawma.

4. **Trafodaeth y Panel ar lety dros dro ac addasrwydd.**
   Roedd y prif bwyntiau a drafodwyd ac y tynnwyd sylw atynt gan y Panel fel a ganlyn:

**Y cyflenwad a phroffilio lletyau dros dro**
Roedd aelodau'r Panel yn cydnabod bod cyd-destun y dull gweithredu "pawb i mewn" a ddefnyddiwyd yn ystod y pandemig wedi rhoi mwy o bwysau ar lety dros dro ym mhob cwr o'r wlad. Mae nifer y bobl sydd mewn llety dros dro yn llawer uwch nag yr oeddent dair blynedd yn ôl (cyn y pandemig). Mae diffyg cyflenwad o letyau dros dro yn golygu bod llawer o bobl yn cael eu rhoi mewn llety dros dro anaddas.

Nododd y Panel fod angen gwybodaeth fanylach ynglŷn â'r cyflenwad presennol o letyau dros dro ledled Cymru, o ran faint o letyau dros dro a oedd ar gael, eu haddasrwydd, eu math a'u lleoliad. Awgrymwyd bod angen gwaith proffilio er mwyn dod i ddeall y stoc lletyau dros dro yn well ac efallai, yn dilyn ymarfer proffilio o'r fath, y gallai awdurdodau weithio yn rhanbarthol ac ar y cyd er

mwyn sicrhau lleoliadau llety dros dro sy'n diwallu anghenion unigolion yn eu hardal yn y ffordd orau.

Nodwyd y dylai unrhyw waith proffilio ystyried y symud tuag at ddull gweithredu Ailgartrefu Cyflym yng Nghymru. Yn y pen draw, dylai'r dull gweithredu hwn leihau'r angen am letyau dros dro yn y dyfodol. Dylai ymarfer proffilio ystyried hyn, a gallai, er enghraifft, ystyried sut y gellid prynu stoc lletyau dros dro gyda'r bwriad o'u gwerthu yn fuan am elw, er mwyn bodloni addasrwydd ar gyfer tai sefydlog.

Gofynnwyd hefyd a fyddai adolygiad o'r system Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (LHMA), sy'n bwydo i mewn i Gynlluniau Datblygu Rhaglenni (PDPs) a phenderfyniadau ar ddyraniadau, yn helpu i ariannu cyflenwad yn y ffordd fwyaf effeithiol.

**Data**

Roedd y Panel yn teimlo bod y data presennol ar letyau dros dro sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru yn annigonol. Ar hyn o bryd, yr unig ffordd o gael gwybodaeth fanylach, gan gynnwys gwybodaeth ynglŷn â faint o amser y mae pobl yn aros mewn llety dros dro, yw drwy wneud cais Rhyddid Gwybodaeth ar gyfer pob awdurdod. Teimlai'r Panel y dylai data manylach fod ar gael fel mater o drefn. Awgrymwyd hefyd bod angen data am grwpiau cydraddoldeb a mynediad at lety dros dro, oherwydd mae'n bosibl bod rhai grwpiau'n cael eu heffeithio yn fwy na'i gilydd.

**Anghenion cymorth**

Nododd y Panel yr anawsterau sy'n codi wrth i bobl gael eu rhoi mewn llety dros dro anaddas, neu mewn llety dros dro nad yw'n diwallu anghenion ceisydd. Mae angen dull gweithredu sy'n seiliedig ar drawma a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn tra mewn llety dros dro er mwyn cael "y cartref iawn, yn y lle iawn".

**Proses adolygu**

Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r broses adolygu ar gyfer y rhai hynny sy'n canfod eu hunain mewn llety dros dro anaddas, ac a yw'r broses 56 diwrnod bresennol yn ormod o ffenestr, ac yn golygu bod pobl yn dal i fyw mewn llety dros dro anaddas tra mae'r awdurdod lleol yn gwneud adolygiad.

Teimlai'r Panel, dan y ddeddfwriaeth bresennol, os yw rhywun yn gymwys a bod ganddo angen blaenoriaethol, yna yn unol â'r gyfraith mae'n rhaid dod o hyd i do uwch ei ben y noson honno mewn llety addas. Mae unrhyw beth arall yn anghyfreithlon. Cyfrifoldeb yr awdurdod lleol yw penderfynu beth sy'n addas, nid y ceisydd. Gallai llety addas fod am hyd at bythefnos os yw'n llety sylfaenol mewn argyfwng, ac am hyd at chwe wythnos os yw'n llety o safon uwch. Fodd bynnag, nid yw hyn yn digwydd bob amser yn ymarferol.

Roedd y Panel yn awyddus i ystyried a oedd angen cryfhau'r ddeddfwriaeth mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol yn hysbysu ceiswyr yn ystod pob cam o'r broses ynglŷn â'u hawl i apelio ac i gael cymorth eiriolwr i wneud hynny.

**Digartref Gartref**

Cyfeiriodd aelod o'r Panel at y cysyniad o fod yn "ddigartref gartref," sy'n cael ei ddefnyddio'n weddol gyffredin mewn rhannau o Loegr, a gofynnodd tybed a allai'r cysyniad hwn helpu pobl i chwilio am ddewisiadau eraill yn lle llety dros dro, a sicrhau yr un pryd nad ydynt yn colli eu statws blaenoriaeth am gartref sefydlog. Eglurwyd bod y cysyniad o fod yn Ddigartref Gartref yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru hefyd, ond nid i'r un graddau. Pwysleisiodd aelodau'r Panel y byddai angen cydbwyso unrhyw anogaeth i gynyddu'r defnydd ohono yn ofalus er mwyn diogelu rhag rhai sefyllfaoedd – e.e. menywod yn teimlo pwysau i aros gyda phartner sy'n eu cam-drin.

Roedd aelod arall o'r Panel yn teimlo bod y term "digartref gartref" wedi cael ei ddefnyddio o'r blaen a'i fod wedi dod i gael ei gysylltu â phorthgadw *(gate-keeping)*.

Hysbyswyd y Panel, na ddylai'r rhai sy'n gwrthod cynnig o lety dros dro, ac yn hytrach yn aros yn ddigartref gartref, golli eu statws blaenoriaeth mewn dyraniadau tai cymdeithasol dan y ddeddfwriaeth bresennol. Er hyn, gellid gofyn a yw'r ymarfer presennol yn camddehongli'r ddeddfwriaeth. Penderfynodd y Panel edrych ar oblygiadau cyfreithiol y cysyniad hwn.

**Ychwanegiadau at safonau addasrwydd sylfaenol mewn llety dros dro**
Trafododd y Panel a ellid ychwanegu at y safonau sylfaenol presennol, gan ystyried y pwyntiau a amlinellwyd ym mhapur yr Arbenigwyr drwy Brofiad, gan gynnwys safonau arbennig ar gyfer teuluoedd ac mewn meysydd amrywiol eraill.

Trafodwyd a ddylai'r Panel edrych ar safonau addasrwydd sylfaenol sy'n gymwys ar gyfer pob math o lety - interim, dros dro a sefydlog – a nodi hefyd unrhyw safonau ychwanegol/gwahanol sy'n ofynnol mewn lleoliadau lle mae'r preswylwyr yn rhannu cegin, ystafell ymolchi ac ati yn fwyaf arbennig. Awgrymodd un aelod o'r Panel bod llety dros dro wedi dod i gael ei gysylltu â llety o ansawdd gwael. Mae angen newid y cysylltiad hwn fel bod llety dros dro yn cyfeirio at hyd yr arhosiad yn unig.

Trafodwyd hefyd a ellid gwneud rhai o'r safonau sy'n cael eu hamlinellu yn y ddeddfwriaeth bresennol yn fwy cadarn er mwyn paratoi'r ffordd ar gyfer gwell gweithredu. Er enghraifft, roedd thema rhannu llety â dieithriaid yn un o'r prif themâu yn y gwaith ymgynghori ag Arbenigwyr drwy Brofiad, er bod deddfwriaeth yn bodoli'n barod yn y mannau hyn.

**Cysylltu addasrwydd â dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn/sy'n seiliedig ar drawma**
Roedd y Panel yn cydnabod bod addasrwydd yn gysylltiedig â phrofiadau ac anghenion unigolion. Er bod y gyfraith bresennol ar addasrwydd yn nodi bod angen i awdurdodau lleol ystyried rhai o amgylchiadau penodol unigolyn (e.e. gofynion yn ymwneud ag addasiadau oherwydd anabledd), nid yw o reidrwydd yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn wrth ystyried addasrwydd.

Gofynnodd y Panel tybed a ellid cryfhau'r cysylltiad rhwng addasrwydd ac asesiad sy'n canolbwyntio ar angen yr unigolyn ar wyneb y ddeddfwriaeth. Gwnaethpwyd yr awgrymiadau a ganlyn: Cysylltu addasrwydd â Chynlluniau Tai Personol; gofyn i awdurdodau lleol ystyried rhestr o bwyntiau yn ymwneud ag addasrwydd; gosod dyletswydd ddeddfwriaethol i ystyried hanes a phrofiadau ceisydd, gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â thrawma; rhoi mwy o bwyslais mewn deddfwriaeth ar yr angen i awdurdodau lleol ystyried barn y ceisydd.

**Canllawiau ar addasrwydd**
Gofynnwyd tybed a allai canllawiau ar addasrwydd ddefnyddio diffiniad ehangach o gam-drin a chamfanteisio. Croesewir y ffaith fod y canllawiau yn pwysleisio'r angen i ystyried materion lleoliad ar gyfer y rhai hynny sy'n dianc rhag cam-drin domestig, ond mae'r gwaith ymgynghori ag Arbenigwyr drwy Brofiad yn dangos bod yna hefyd lawer o fathau eraill o gam-drin a chamfanteisio y byddai angen eu hystyried o bosibl wrth ddod o hyd i lety addas.

**Cyfathrebu â cheiswyr**
Mynegwyd pryder ynglŷn ag ansicrwydd tenantiaid wrth iddynt aros mewn llety dros dro. Penderfynodd y Panel ystyried sut y gallai deddfwriaeth sicrhau cyfathrebu cadarnach â thenantiaid ynglŷn â chynnydd wrth geisio dod o hyd i lety sefydlog ac ynglŷn â'u hawliau yn y broses ymgeisio am gartref.

**Ystyried polisïau a rheolau tŷ mewn llety dros dro**

Trafododd y Panel y ffaith fod polisïau yn gallu achosi rhwystrau parhaus sy'n atal mynediad at lety dros dro a sefydlog, e.e. polisïau yn ymwneud ag ôl-ddyledion rhent ac anifeiliaid anwes. Gall rheolau tŷ mewn llety dros dro achosi rhwystr hefyd, er enghraifft gall cyrffyw wneud gweithio'n anodd. A allai'r Panel ystyried newid deddfwriaethol/canllawiau yn y maes hwn?

**Fforddiadwyedd**

Pwysleisiodd aelodau'r Panel fater fforddiadwyedd mewn llety dros dro. Gall newidiadau i wasanaethau mewn llety dros dro achosi i bobl fynd i ddyled, ond ar hyn o bryd yr unig ffordd o herio hyn yw drwy gyflwyno adolygiad addasrwydd. Gall dyledion sy'n crynhoi dros gyfnod eich rhwystro rhag gadael y system. Mae'r cyfuniad hwn yn golygu bod pobl wedi cael eu dal mewn llety dros dro a'u bod yn methu â dod oddi yno.

**Rheoleiddio**

Nododd y Panel adroddiad yr Ombwdsmon Cyhoeddus ar faterion yn ymwneud ag addasrwydd, a theimlai fod hwn yn faes lle gallai rheoleiddio a monitro chwarae rhan hollbwysig. Bydd y Panel yn trafod rheoleiddio mewn cyfarfod yn y dyfodol a bydd yn ailedrych ar reoleiddio yn y maes hwn bryd hynny.

**Model Denmarc**

Dywedodd aelod o'r Panel fod cyllid ar gael gan y Llywodraeth ganolog yn Nenmarc i helpu awdurdodau i ariannu arosiadau cychwynnol mewn llety dros dro. Fodd bynnag, mae'r ffocws ar ariannu'r arhosiad cychwynnol yn unig. Mae rhagor o gyllid ar gyfer cynlluniau awdurdodau eraill yn ymwneud â llety mwy hirdymor er mwyn cael mwy o gymhelliant i chwilio am lety sefydlog.

| Aelod(au) y Panel | Cam gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Hannah Fisher | Ystyried casglu data ar letyau dros dro a'u rhannu'n rheolaidd. | I'w gadarnhau |
| Jennie Bibbings | Shelter i rannu ei ganfyddiadau llety dros dro yng Nghymru ynglŷn â'r rhwystrau sy'n achosi i bobl gael eu dal yn y system digartrefedd. | I'w gadarnhau |
| Liz Davies CB | Paratoi cyngor yn ymwneud â'r meysydd a ganlyn:<br>a. Dull gweithredu cyffredinol mewn cysylltiad ag addasrwydd;<br>b. Hawliau i ofyn am adolygiad;<br>c. Gwybodaeth am wneud cais am adolygiad a phroses barhaus;<br>d. Llety interim, llety dros dro, llety parhaol;<br>e. Ffactorau statudol;<br>f. Canllawiau;<br>g. Ffactorau eraill o gyfraith achos;<br>h. Gwneud iawn ar y pryd;<br>i. Materion yn codi o'r papur Arbenigwyr drwy Brofiad a thrafodaeth;<br>j. Anghenion cymorth, gan gynnwys sut y gall asesiad unigolyn o angen fod yn fwy cysylltiedig â beth yw llety addas;<br>k. Dyletswydd i gyfathrebu/hysbysu pobl;<br>l. Y ffordd ymlaen ag ymarfer sy'n seiliedig ar drawma – deddfwriaeth neu ganllawiau?<br>m. Digartref Gartref. | Ar gyfer trafodaeth mewn cyfarfod ychwanegol yn y dyfodol ar lety dros dro ac argymhellion addasrwydd (Mawrth – I'w gadarnhau). |

5. **Unrhyw fater arall**
Pwysleisiodd y Cadeirydd bwysigrwydd y cyfarfod wyneb yn wyneb yr wythnos nesaf. Yn y cyfarfod hwn, bydd y Panel yn adolygu'r meysydd a drafodwyd gan y Panel hyd yn hyn ac yn cadarnhau'r argymhellion y mae'r Panel yn dymuno eu gwneud ym mhob un o'r meysydd hyn. Caiff papur briffio ei ddosbarthu cyn bo hir. Diolchir i holl aelodau'r Panel am eu hyblygrwydd wrth lunio a/neu adolygu papurau cyn cyfarfodydd.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at sesiwn a gynhaliwyd yn gynharach yn yr wythnos pan gyflwynodd Tai Pawb ei ganfyddiadau interim ar ôl ymgynghori ag arbenigwyr drwy brofiad sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae'r sleidiau a chrynodeb byw wedi cael eu hanfon at aelodau'r Panel drwy ebost.

Mae holl sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein Crisis wedi cael eu cadarnhau erbyn hyn a chyhoeddir y dyddiadau ar wefan Crisis. Gofynnodd JB i aelodau'r Panel rannu manylion y sesiynau hyn â'u rhwydweithiau.

Mae JB wedi bod yn gweithio ar gynllun ar gyfer y sesiwn briffio cyn cyfarfod mis Mawrth y Panel ar blant, pobl ifanc, teuluoedd a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Byddai JB yn croesawu unrhyw awgrymiadau gan aelodau'r Panel ar ddogfennau neu ymchwil a ddylai gael eu cynnwys yn y cynllun hwn ac mae ebost wedi'i anfon i'r perwyl hwn.

| Aelod(au) y Panel | Cam gweithredu | Amserlen |
|---|---|---|
| Abi Renshaw | Anfon y papur briffio a'r agenda at aelodau'r Panel cyn Cyfarfod 5. | Cyn y cyfarfod ar 03.02.23 |
| Katie Dalton | Anfon y crynodeb diweddaraf o bapur yr Arbenigwyr drwy Brofiad a'r papur gweithwyr rheng flaen at aelodau'r Panel. | Cyn y cyfarfod ar 03.02.23 |
| Pawb | Rhoi gwybod i staff Crisis os bydd y streiciau rheilffyrdd yn effeithio ar eich gallu i ddod i gyfarfod wyneb yn wyneb y Panel yr wythnos nesaf, gan fod modd cynnig opsiwn hybrid neu wneud trefniadau teithio eraill. | Ar unwaith |
| Pawb | Anfon adborth at JB ynglŷn ag unrhyw ffynonellau i'w hychwanegu at y cynllun ar gyfer y sesiwn briffio ar Blant, Teuluoedd, Pobl Ifanc a thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. | Ar unwaith |
| Pawb | Rhannu manylion am y sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid ar-lein. | Ar unwaith |

**Cynhelir y cyfarfod wyneb yn wyneb nesaf ddydd Gwener, 3 Chwefror 2023.**